

Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023

Hysbysiad o gyfarfod**Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit****Dydd Iau, 30ain Mawrth, 2023 at 2.00 pm,
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA****AGENDA**

Item No	Item	Pages
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Fforwm Agored i'r Cyhoedd Fforwm Agored Cyhoeddus y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio – Canllawiau Caiff cyfarfodydd ein Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio eu ffrydio'n fyw a bydd dolen i'r ffrwd byw ar gael ar dudalen cyfarfodydd gwefan Cyngor Sir Fynwy. Os hoffech roi eich sylwadau ar unrhyw bynciau sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor, gallwch eu cyflwyno. ar y ffurflen hon Gofynnir i chi roi eich barn drwy lanlwytho fideo neu ffeil sain (dim mwy na 4 munud neu anfon sylwadau ysgrifenedig (ar Microsoft Word, dim mwy na 500 gair). Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer cyfrif Fy Sir Fynwy er mwyn cyflwyno'r sylwadau neu ddefnyddio eich manylion mewngofnodi, os ydych wedi cofrestru yn flaenorol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cyngor yw 5pm dri diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod. Os derbynnir cyfanswm o fwy na 30 munud o sylwadau, caiff detholiad ohonynt yn seiliedig ar thema eu rhannu yng nghyfarfod y Pwyllgor	

Llywodraethiant ac Archwilio. Bydd yr holl sylwadau a geir ar gael i gynghorwyr cyn y cyfarfod.

Os hoffech fynychu un o'n cyfarfodydd i siarad dan y Fforwm Agored cyhoeddus yn y cyfarfod, bydd angen i chi roi tri diwrnod gwaith o hysbysiad drwy gysylltu â: wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk

Os hoffech awgrymu pynciau i'w craffu yn y dyfodol, gallwch wneud hynny drwy anfon e-bost at wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk

4.	Nodi'r Ddalen Weithredu o'r cyfarfod blaenorol.	1 - 2
5.	Archwilio Cymru: Cynllun Amlinellol 2023/24.	3 - 14
6.	Rhaglen Waith Archwilio Cymru: Diweddariad ar Gynnydd y Cyngor	15 - 32
7.	Adroddiad Cwynion Awdurdod Cyfan Ebrill 2021 – Mawrth 2022.	33 - 64
8.	Crynodeb Archwiliad Blynyddol Archwilio Cymru.	65 - 72
9.	Trosolwg o Drefniadau Rheoli Perfformiad.	73 - 84
10.	Adolygiad o'r Gofrestr Risg Strategol – 6 misol.	85 - 94
11.	Gweithredu argymhellion cymeradwyo Archwiliad Mewol	95 - 102
12.	Rhaglen waith ac amserlen Chwarter 3 Archwilio Cymru	103 - 136
13.	Nodi Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.	137 - 144
14.	Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol	145 - 150
15.	Nodi dyddiad y cyfarfod nesaf ar 15 Mehefin 2023..	

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Andrew Blackmore

Colin Prosser

Martin Veale

Rhodri Guest

County Councillor Ian Chandler	Llantilio Crossenny;	Green Party
County Councillor John Crook	Magor East with Undy;	Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Tony Easson	Dewstow;	Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Tony Kear	Llanbadoc & Usk;	Welsh Conservative Party
County Councillor Malcolm Lane	Mardy;	Welsh Conservative Party
County Councillor Phil Murphy	Caerwent;	Welsh Conservative Party
County Councillor Peter Strong	Rogiet;	Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Laura Wright	Grofield;	Welsh Labour/Llafur Cymru

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i

gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwranddo ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tim. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.